

Asesu cymwysterau BHSQ mewn a iaith heblaw Saesneg

Mae cymwysterau BHSQ yn cael eu hasesu yn Saesneg. Lle bo angen defnyddio iaith arall, bydd BHSQ yn ystyried hyn fesul achos unigol. Mae'r enghreifftiau canlynol yn rhesymau dros wneud addasiad.

- Mae'r dysgwyr yn cymryd y cymhwyster yn rhan o hyfforddiant a datblygiad ar gyfer rôl benodol yn y gweithle sy'n gofyn iddynt ddefnyddio iaith heblaw Saesneg.
- Lle mae'r dysgu'n digwydd a lle mae'r dysgwr yn byw, mae yna ofyniad y dylai'r asesiad hwnnw fod ar gael mewn iaith heblaw Saesneg.
- Mae cyflogwr(wyr) y dysgwyr yn ei gwneud yn ofynnol i'r dysgu gael ei gyflwyno mewn iaith heblaw Saesneg yn rhan o'u busnes.
- Mae'r dysgwyr yn astudio'r cymhwyster i feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn iaith heblaw Saesneg, a chynhelir yr asesiad yn yr iaith honno.
- Ni fydd defnyddio iaith heblaw Saesneg wrth asesu yn achosi mynd yn groes i'r rheoliadau.

Lle bo BHSQ yn darparu cymhwyster mewn mwy nag un iaith, rhaid i BHSQ gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob asesiad yn gyson o ran safon. Rhaid darparu tystiolaeth o hyn.

Dylid nodi, dim ond os cynigir yr un cymhwyster yn y Deyrnas Unedig y gellir cynnig cymwysterau BHSQ sy'n cael eu haddysgu'n rhyngwladol mewn ieithoedd heblaw Saesneg .

Y Broses

Dylai Canolfannau Cymeradwy BHSQ sydd am gynnig cymwysterau BHSQ mewn iaith heblaw Saesneg gysylltu â BHSQ yn gyntaf i esbonio'r rhesymeg am hynny. Bydd BHSQ yn ystyried y cais, a gall ofyn am ragor o wybodaeth i ategu ei benderfyniad.

Ar ôl rhoi cydsyniad, gall Canolfan Gymeradwy BHSQ wneud trefniadau i gyfieithu'r ddogfennaeth berthnasol o'r Saesneg i'r iaith arall. Gall y ddogfennaeth yma gynnwys manylebau'r cymwysterau, awgrymiadau o ran aseiniadau, rhestrau adnoddau a pholisïau perthnasol.

Rhaid i'r Ganolfan Gymeradwy BHSQ sicrhau addasrwydd y cyfieithydd ar gyfer yr asesiad fel bod y penderfyniadau'n ddilys ac yn ddibynadwy.

Lle cynhelir asesiad mewn iaith heblaw Saesneg, rhaid i'r Ganolfan Gymeradwy BHSQ sicrhau bod datganiad y cyfieithydd yn cael ei weithredu'n llawn, ei fod yn cael ei gwblhau a'i anfon at BHSQ wrth gyflwyno'r canlyniadau. Heb y datganiad hwn, ni all ellir rhoi canlyniad nac ardystiad. Cyfrifoldeb y Ganolfan Gymeradwy BHSQ yw sicrhau bod yr holl ofynion a nodir yn y datganiad hwn yn cael eu diwallu'n llwyr.

Rhaid i'r safon a'r sicrwydd ansawdd fod yr un fath y tu allan i'r Deyrnas Unedig ag y maent yn y Deyrnas Unedig.

Dyluniad a chynnwys tystysgrifau

Bydd BHSQ yn sicrhau bod iaith yr asesiad yn glir ar y dystysgrif.

Monitro ac adolygu

Caiff y ddogfen hon a'i chynnwys eu hadolygu bob tair blynedd, neu'n gynt na hynny os oes angen er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas at y diben.

Dyddiad adolygu: Chwefror 2027

Hanes y ddogfen

Fersiwn	Dyddiad adolygu	Rheswm
3	12/02/2024	Diwygio a diweddarau dogfen a gynhyrchwyd yn flaenorol

Sylwer: Nid oes modd rheoli'r ddogfen hon ar ôl ei hargraffu. Holwch BHSQ am y fersiwn ddiweddaraf.

Cwmni wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr yw'r British Horse Society Qualifications Limited ac mae'n masnachu fel BHS Qualifications (BHSQ).